

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 26 Ionawr 2016

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, A. Mummery, G. Parry, Stephen Edwards, D. James, Mervyn Jones, E. Parry, J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: G. C. Jones, H. Huws, Meirion Jones, B. Jones, D. Williams, A. Williams,

2. Datganiadau Diddordeb.

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Cyfrifon Mis Ionawr 2016

3.1 G. Parry yn cynnig, J Roberts yn eilio. Derbyniwyd cyfrifon Ionawr fel rhai cywir

3.2 A. Mummery yn nodi bydd angen trosglwyddo £1,500 o gyfrif y Fynwent i'r Cyngor Bro yn fuan.

4. Materion y Cyngor Sir

4.1 J. Evans yn nodi fod ymweliad a safle Borthwen wedi'i drefnu gan Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir, gyda'r mater yn mynd o flaen y Pwyllgor yng nghyfarfod Chwefror

4.2 J. Evans yn nodi bod gwaith cynnal a chadw am ei wneud i oleuadau ar y ffordd A5

4.3 A. Mummery yn nodi mi fydd yna dipyn o waith yn cael ei wneud o gwmpas y pentref gydag gosod offer nwy.

4.4 Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi pasio i finiau cael eu casglu pob tair wythnos yn hytrach na phythefnos.

S. Edwards yn cyrraedd y cyfarfod

A. Jones yn ei groeso ar ran bawb i'r Cyngor Bro

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 15 Rhagfyr 2015

5.1 J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.

6. Materion yn codi

6.1 Twr Marcwis - A. Mummery yn nodi ei fod yn gobeithio cael diweddariad yn y gwanwyn cynnar.

6.2 Plac ar dy Kyffin Williams -Clerc wedi derbyn amcan bris o £200 i £250 + TAW gan Inigo Jones. Clerc i ofyn i Meirion Jones drafod geirio a gosod y plac gyda Pat West

6.3 Bwrdd Iechyd - A. Mummery wedi derbyn cwynion am fod dŵr glaw yn sefyll yn fynedfa'r Feddygfa. A. Mummery wedi gofyn i'r Cyngor Sir edrych arno.

6.4 Llwybr beicio - Dim diweddariad hyd yn hyn os ydy'r gwaith wedi'i gwblhau

6.5 To fflat y Neuadd Goffa - A. Jones yn nodi ei fod heb dderbyn amcan bris gan G. Pritchard i wneud y gwaith. Nodwyd fod angen cadw llygaid ar y to tan fydd gwaith wedi'i wneud.

6.6 Llawr y siglenni maes chwarae - Disgwyl am amcan brisiau gan Andre Le Cras i wneud y gwaith.

6.7 Cyfarfod Arweinydd Cyngor Sir ynglŷn â'r Gyllideb - Nodwyd fod ymateb ym mhob ardal wedi bod yn siomedig gyda dim llawer o ddiddordeb

6.8 J. Roberts yn nodi fod yna bryder am niferoedd isel sydd wedi mynychu cyfarfodydd diweddar y Cyngor Bro. Nodwyd hefyd bod sesiwn ar y Cod Ymddygiad i'w gynnal ym Mhenmynydd am 7:00yh ar 03 Chwefror 2016.

6.9 Trefniadau Nadolig - Cyngor Bro yn llongyfarch unfrydol y trefnwyr am gynnal noson lwyddiannus. Cytunwyd i yrru diolch i Pringles am eu cyd weithrediad ac i ofyn am ganllaw ar ba wybodaeth fyddent eu hangen i'r Cyngor Bro symud ymlaen i geisio defnyddio'r Ty Stesion.

7. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod Pwyllgor Fynwent 19 Ionawr 2016

7.1 G. Parry yn cynnig, J. Roberts yn eilio, derbyniwyd fel rhai cywir

8. Materion yn codi o'r cofnodion

8.1 Coed angen sylw - E. Parry wedi bod yn gwneud gwaith wrth yr afon yn y maes parcio. A. Mummery am ofyn i Medwyn Williams am gyngor ar beth i'w blannu yno. E. Parry yn nodi hefyd bod coeden dderw angen sylw yno.

8.2 Cwyn wedi'i godi yng nghyfarfod y Fynwent - Clerc i ddrafftio llythyr tuag at ymgymerywyr angladdau, fydd i'w gymeradwyo gan y Cyngor Bro yn Chwefror ynglŷn â'r sefyllfa gydag agor beddi.

9. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Cyllid 19 Ionawr 2016

9.1 A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio, derbyniwyd fel rhai cywir

10. Materion yn codi o'r cofnodion

10.1 Clerc yn parhau i weithredu ar arian sydd yn ddyledus i'r Cyngor Bro gyda chais yswiriant a grant i gynnal a chadw'r Neuadd Goffa

11. Cyllideb 2016/17

11.1 Nodwyd fod taenlen wedi paratoi ac amcan o wariant 2016/17 wedi'i wneud. A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio i argymhelliad Pwyllgor Cyllid ar osod y prisedd yn £39,000. Pawb yn unfrydol yn derbyn.

12. Biniâu baw cwn yn y pentref

12. Adran Rheoli Gwastraff y Cyngor Sir wedi cadarnhau mai dim ond un o'r biniâu sydd i fod wedi symud gan ei fod angen ei newid oherwydd difrod. Gofynnwyd i gael cadarnhad o ba finiau sydd wedi mynd ar goll i gael gwneud ymholiadau.

13. Diweddariad cais grant y Neuadd Goffa Newydd

13.1 A. Mummery yn nodi fod Gerallt Llewelyn Menter Môn wedi cadarnhau nad yw mewn sefyllfa i wneud y gwaith felly methu rhoi cymorth pellach. Nodwyd fod Dewi Williams DEWIS wedi siarad gyda Rita Lyons (Communities First) ac mae hi yn fodlon cynorthwyo gyda'r gwaith.

13.2 A. Mummery ac A. Jones wedi cyfarfod gyda Rita Lyons, ac mae hi yn gweithredu ar y datganiad o ddiddordeb sydd i'w wneud gyda'r cais am y grantiau, ac yn disgwyl diweddariad o fewn 20 diwrnod. Nodwyd ei bod yn ffyddiog o basio'r cymal cyntaf, ac wedyn yn nodi bydd y cymal nesaf yn cymryd o gwmpas 6 mis.

13.3 Nodwyd fod angen ffurfioli sefydliad y Neuadd Goffa fel ymddiriedolwyr a phwyllgor ar wahân i'r Cyngor Bro. Nodwyd fod Meirion Jones ac Anwen Le Cras yn gweithredu.

14. Edrych am grant gan y Memorials Fund ar y cloc

14.1 A. Jones yn nodi fod y cloc yn gollwng lot o ddŵr glaw i mewn, a bod grant ar gael gan y Memorials Fund i'w waith i'w atgyweirio, ond mae angen amcan brisiau ac adroddiad ar y gwaith sydd ei angen. Clerc i ofyn i Andre Le Cras os fedrith o baratoi'r wybodaeth berthnasol.

15. Ceisiadau Cynllunio

15.1 39C561/FR Cais llawn ar gyfer codi canolfan Zorb ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau a maes parcio ar dir yn The Lodge, Ffordd Caergybi, Porthaethwy (cynllun a dogfennau diwygiedig) - Nodir pryder ar yr effaith ar y golygfeydd ac erydiad o'r tir gwyrdd.

16. Gohebiaeth

16.1 Llythyr CSYM - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth

16.2 Horizon - Digwyddiadau Gwybodaeth - Derbyn y wybodaeth

16.3 Llythyr Dawns i Bawb - Mater i'r Pwyllgor Cyllid

16.4 Llywodraeth Cymru - Adolygiad o ddiogelwch Cefnffyrdd - Derbyn y wybodaeth

16.5 CSYM - Ymgynghoriad ar ffordd newydd o osod tai cymdeithasol ar Ynys Môn - Derbyn y wybodaeth a dim sylw.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 23 Chwefror 2016 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)Dyddiad